# Protocol trosglwyddo gofalwyr maeth, Cymru
## Dyddiad yr adolygiad diwethaf rhagymadrodd: Mawrth 2026

Datblygwyd y protocol hwn gan Y Rhwydwaith Maethu ac fe'i cyhoeddir â chefnogaeth y rheiny a lofnododd, isod. Mae'n rhoi ystyriaeth i ddeddfwriaeth a rheoliadau cyfredol, Siarter Gofalwyr Maeth Y Rhwydwaith Maethu, ac mae'n amlinellu canllawiau ymarfer da sydd i'w dilyn gan bawb, pan fo gofalwyr maeth cymeradwy yn dymuno trosglwyddo o'r naill wasanaeth maethu i'r llall yng Nghymru. Diweddarwyd y protocol hwn ym mis Mawrth 2026 i adlewyrchu'r newidiadau a gyflwynwyd gan Reoliadau Paneli Maethu a Chynllunio Gofal (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026.[1]

Nid bwriad y protocol hwn yw ymdrin â throsglwyddiadau crynswth o ofalwyr maeth yng Nghymru, gan nad oes yna ddarpariaeth yn y rheoliadau. Nid yw'n gymwys ychwaith pan fo asiantaeth faethu yn peidio â gweithredu'i swyddogaethau maethu.

## 1. Egwyddorion

1.1 Mae'r protocol yn cydnabod egwyddorion deddfwriaeth, rheoliadau a chanllawiau gofal cymdeithasol Cymru, ac mae'n ceisio sicrhau bod diogelu llesiant plant a phobl ifanc wrth graidd polisi ac ymarfer maethu. Mae'n cydnabod bod lles pob plentyn a pherson ifanc yn hollbwysig.

1.2 Rhoddir ystyriaeth i farn y plentyn (plant) a'r bobl ifanc a, lle y bo'n berthnasol, barn y rhiant (rhieni), gofalwyr maeth ac unigolion/cyrff perthnasol eraill.

1.3 Mae'n rhaid gwarchod plant a phobl ifanc mewn lleoliad rhag symudiadau nas cynlluniwyd a/neu symudiadau nad ydynt er eu budd gorau.

1.4 Mae gan ofalwyr maeth yr 'hawl' i wneud cais i wasanaeth maethu arall.

1.5 Mae pob gwasanaeth maethu wedi'u hymrwymo i recriwtio, cefnogi a chadw gafael yn weithredol ar deuluoedd maethu.

[1] https://laiddocuments.senedd.wales/sub-ld17767-en.pdf

## 2. Amcanion y protocol hwn

2.1 Hyrwyddo safonau uchel o ran ymarfer o fewn a rhwng gwasanaethau, yn ysbryd cydgynhyrchu a chydweithredu o ran y ddwy ochr, gan sicrhau buddiannau hirdymor maethu, a phlant a phobl ifanc mewn lleoliadau.

2.2 Sicrhau dilyniant mewn gofal a chefnogaeth i blant a phobl ifanc mewn lleoliad yn ystod unrhyw drosglwyddo gofalwyr maeth, rhwng gwasanaethau maethu.

2.3 Sicrhau bod y ffocws yn parhau ar gynllun gofal a chymorth y plentyn a'r person ifanc drwy gydol y broses drosglwyddo. Mae unrhyw newidiadau a gynigir er eu budd gorau, ac fe'u trafodir a chytunir arnynt yn unol â'r broses adolygu Plant sy'n Derbyn Gofal.

2.4 Lleihau hyd yr amser a gymerir yn y broses drosglwyddo.

2.5 Cytuno i *Fframwaith Pontio,* sy'n amlinellu'r graddfeydd amser a'r gorchwylion gofynnol, gan gadarnhau'r gwaith trafod y cytunwyd arno parthed y trosglwyddo rhwng y ddau wasanaeth maethu.

2.6 Sicrhau bod yr holl bartïon, lle mae yna Gynllun Sefydlogrwydd ar waith ar gyfer plentyn neu berson ifanc, yn cydweithio i sicrhau bod sefydlogrwydd y lleoliad yn cael ei flaenoriaethu ac i sicrhau y diogelir buddiannau gorau'r plentyn bob amser.

## 3. Recriwtio gofalwyr maeth presennol

3.1 Ni fydd gwasanaethau maethu yn mynd at ofalwyr maeth unigol gyda golwg i'w recriwtio, yn ddiarwybod i'w gwasanaeth cyfredol.

3.2 Ni ddylai gwasanaeth maethu y cysylltwyd ag ef gan ofalwyr maeth ddechrau ar asesiad gyda golwg i drosglwyddo o wasanaeth arall, heb fod y gofalwr maeth wedi cadarnhau ei fod wedi hysbysu'i wasanaeth cyfredol yn ffurfiol.

3.3 Cydnabyddir y bydd yna amgylchiadau pan fo'n briodol i ofalwyr maeth gael trafodaethau cychwynnol â gwasanaethau maethu eraill, cyn cytuno i ddechrau ar asesiad a chyn y bydd y gofalwr maeth yn rhoi hysbysiad i'w wasanaeth cyfredol.

3.4 Ar y gofalwr maeth y mae'r cyfrifoldeb am hysbysu'i wasanaeth cyfredol, yn ysgrifenedig, ei fod yn gwneud cais i wasanaeth maethu arall.

3.5 Yn ystod y broses bontio, mae gan awdurdodau lleol, gofalwyr maeth a gwasanaethau maethu cofrestredig gyd-ddiddordeb a chyfrifoldeb am

sicrhau sefydlogrwydd a pharhau i weithredu Cynllun Gofal a Chymorth y plentyn neu'r person ifanc.

3.6 Ni ddylid disgwyl i ofalwyr maeth newid gwasanaeth maethu i sicrhau cytundeb â chynllun ar gyfer plentyn neu berson ifanc; er enghraifft, sefydlogrwydd.

3.7 Bydd y gwaith asesu gan y gwasanaeth recriwtio yn gymesur â mynediad at, argaeledd ac aeddfedrwydd gwybodaeth sydd ym meddiant y gwasanaeth cyfredol, lle y bo'n bosibl, i alluogi'r gwasanaeth recriwtio ond i ddiweddaru'r asesiad yn hytrach na dechrau ar y broses asesu o'r dechrau.

3.8 Bydd y gwasanaeth recriwtio yn derbyn ac yn trosglwyddo pob dogfen yn ymwneud â chymhwyster/hyfforddiant (gweler 7, isod), yn cynnwys eu Cynllun Dysgu a Datblygu (Fframwaith Maethu Cenedlaethol), a gyflwynwyd gan y gofalwyr maeth.

## 4. Gweithdrefn lle nad oes plentyn mewn lleoliad

4.1 Gall y gwasanaeth recriwtio ddechrau ar yr asesu unwaith y mae'r gofalwr maeth wedi cadarnhau bod yr hysbysiad o'i fwriad i drosglwyddo wedi'i dderbyn gan ei wasanaeth cyfredol.

4.2 Unwaith y bydd yr asesiad wedi'i gwblhau ac mae'r gwasanaeth recriwtio wedi hysbysu'r gofalwr maeth eu bod yn cyflwyno'r gymeradwyaeth y maent yn ei hargymell i'r Panel Maethu, dylai'r gofalwr maeth roi hysbysiad ysgrifenedig i'w wasanaeth cyfredol o'i ymddiswyddiad.

4.3 Ni ellir cymeradwyo gofalwr maeth *(Rheoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) 2018, Rheoliad 8(1))* gan fwy nag un gwasanaeth maethu ar yr un pryd. Ni chaniateir eu cymeradwyo gan y gwasanaeth recriwtio cyn y dyddiad y mae'u cymeradwyaeth gyfredol yn gorffen. Bydd cymeradwyaeth yn darfod 28 niwrnod (Rheoliadau 9 (13) y Panel Maethu) ar ôl hysbysiad ysgrifenedig o ymddiswyddiad a dderbyniwyd gan yr asiantaeth gyfredol oddi wrth y gofalwr maeth.

4.4 Er mwyn sicrhau y caiff dyddiad yr ymddiswyddiad ei gadarnhau gan y gwasanaeth cyfredol, cyfrifoldeb y gofalwr maeth yw cyflwyno'i ymddiswyddiad ysgrifenedig i'w wasanaeth cyfredol a derbyn cydnabyddiaeth ysgrifenedig.

4.5 Mae'n rhaid i'r gwasanaeth recriwtio sicrhau nad ydynt yn cadarnhau penderfyniad (drwy'u Penderfynwr) i gymeradwyo'r gofalwr maeth cyn y dyddiad y bo'r ymddiswyddiad gyda'r asiantaeth gyfredol yn dod i rym.

4.6 Mae ymarfer da yn argymell bod y gwasanaeth cyfredol yn cynnal cyfweliad ymadael a bod yr wybodaeth yn cael ei chyflwyno i'r Panel Maethu, er dibenion gwybodaeth a monitro.

## 5. Gweithdrefn lle mae plentyn mewn lleoliad

5.1 Lle mae yna blentyn (plant) neu berson ifanc yn byw mewn gofal maeth, mae'n rhaid i ofalwyr maeth roi hysbysiad ysgrifenedig o'i fwriad i ymgeisio i symud i wasanaeth maethu arall, a hynny i'r gwasanaeth cyfredol ac i'r awdurdod/awdurdodau lleoli.

5.2 Ar ôl derbyn yr hysbysiad ysgrifenedig, mae'n rhaid i'r awdurdod lleoli hysbysu Swyddog Adolygu Annibynnol (IRO) y plentyn o'r newid bwriadedig o ofalwyr maeth, a fydd, o fewn 28 niwrnod, yn galw cyfarfod o'r awdurdod/awdurdodau lleoli, a all gynnwys staff comisiynu/contractio, yn ogystal â gweithwyr cymdeithasol y plentyn neu'r person ifanc, y gwasanaeth cyfredol, y gwasanaeth recriwtio a'r gofalwr/gofalwyr maeth.

5.3 Lle mae yna fwy nag un awdurdod lleoli, dylid canfod cytundeb ynglŷn â pha awdurdod fydd yn cymryd cyfrifoldeb am alw'r cyfarfod. Yn gyffredinol, yr awdurdod sydd wedi cael plant a phobl ifanc wedi'u lleoli am y cyfnod hwyaf â'r gofalwr maeth fydd yn cael ei ystyried fel yr awdurdod 'arweiniol' ac a fydd yn mynd rhagddo i drefnu'r cyfarfod.

5.4 Bydd y cyfarfod yn ystyried y canlynol, ac fe gaiff eu penderfyniadau eu cynnwys yn y Fframwaith Pontio:

- Bydd unrhyw benderfyniadau a wnaed yn ystod Adolygiad Plant sy'n Derbyn Gofal diweddaraf y plentyn neu'r person ifanc, yn neilltuol o ran p'un a yw er eu budd gorau i barhau yn eu cartref maeth cyfredol a sut y bydd eu Cynllun Gofal a Chymorth yn parhau.
- Asesu sut y bydd symudiad y gofalwr maeth i wasanaeth maethu arall yn effeithio ar bob plentyn mewn lleoliad, yn cynnwys colled/buddion dichonol y newidiadau yn y perthnasoedd, gweithgareddau, a gwasanaethau cymorth y mae plentyn wedi'i ddatblygu ac/neu wedi'i sefydlu tra ei fod mewn gofal maeth yn y gwasanaeth cyfredol.
- Anghenion cymorth penodol y plentyn neu'r person ifanc a'r gofalwr maeth, a sut y cânt eu cyflawni gan y gwasanaeth recriwtio.
- Yr amgylchiadau lle y gall y gwasanaeth recriwtio ddefnyddio unrhyw le gwag arall yn y cartref maeth, unwaith y bydd y trosglwyddo wedi'i gwblhau.
- Y trefniadau a'r amseriad ar gyfer cymeradwyaeth gan y gwasanaeth recriwtio a therfynu cymeradwyaeth y gofalwr maeth gan y gwasanaeth cyfredol.
- Y trefniadau i'w cydgysylltu er mwyn sicrhau parhad cymeradwyaeth, ac er mwyn i drosglwyddo gael ei wneud ar ddyddiad y cytunwyd arno gan y ddwy ochr.
- Trefniadau cyfochrog ar gyfer amseru trosglwyddo cyfrifoldeb am dalu ffioedd a lwfansau i'r gofalwr maeth.
- Barn y plentyn, y rhiant, yr eiriolwr, ac unrhyw unigolion/cyrff eraill sydd â diddordeb (dylai'r farn hon gael ei chanfod a'i chynrychioli gan yr awdurdod sy'n lleoli, i'w chyflwyno yn y cyfarfod).

- Lle y caiff ei benderfynu mewn adolygiad achos gan awdurdod sy'n lleoli nad yw'r cartref maeth am barhau, bydd y trefniadau i symud y plentyn/y plant neu'r person ifanc i gartref maeth arall, yn cynnwys amserlen ar gyfer y cyfryw symudiad, yn cael eu cadarnhau.
- Dylid cwblhau'r trosglwyddo o fewn amserlen a gymhellir gan anghenion y plentyn, a'r Cynllun Gofal a Chymorth. Disgwylir y byddai'r asesiad a'r hyfforddiant fel arfer yn cael eu cwblhau gan y gwasanaeth recriwtio o fewn tri i bedwar mis, oni bai bod yna amgylchiadau eithriadol, lle y byddai yna gytuno ar amserlen ddiwygiedig yn y Fframwaith Pontio.

5.5 Unwaith y bydd Panel Maethu y gwasanaeth maethu sy'n recriwtio wedi gwneud ei argymhelliad, ac mae'r gwasanaeth yn cadarnhau'i fod yn barod i gymeradwyo'r gofalwr maeth, dylai'r gofalwr maeth gyflwyno'i ymddiswyddiad i'r gwasanaeth cyfredol, fel a amlinellir ym mharagraff 4.5 uchod.

5.6 Gall penderfynwr y gwasanaeth recriwtio benderfynu y bydd yn cymeradwyo'r person fel gofalwr maeth ar ddyddiad penodol yn y dyfodol, a diben hynny yw cyd-daro â therfynu'u cymeradwyaeth bresennol ar ôl i'r cyfnod hysbysiad 28 niwrnod ddod i ben. Neu fel arall, gall y penderfynwr ohirio'i benderfyniad tan ddyddiad terfyniad y gymeradwyaeth gyfredol.

## 6. Rhannu gwybodaeth

Mae diwygiadau 2026 yn cyflwyno Rheoliad 10A, sy'n amlinellu dyletswyddau penodol ar ddarparwyr gwasanaeth maethu i ymateb i geisiadau am eirdaon a chofnodion o fewn graddfeydd amser diffiniedig ac yn ddi-gost i'r gwasanaeth sy'n gofyn am yr wybodaeth. Mae'r rheoliad hwn yn:

- Mynnu bod darparwyr yn cyflenwi'r wybodaeth y gofynnir amdani oni bai y gwaherddir hynny gan y gyfraith.
- Nodi graddfa amser orfodol o 15 diwrnod gwaith i ddarparu'r wybodaeth.
- Cadarnhau bod yn rhaid darparu'r wybodaeth yn ddi-gost i'r gwasanaeth maethu sy'n gofyn am yr wybodaeth.
- Ymwneud yn benodol â cheisiadau a wnaed o dan Reoliad 7(2)(b) (geirdaon) a 7(2)(e) (cofnodion).

## Felly:

6.1 Bydd y gwasanaeth cyfredol yn hwyluso modd o gael at holl gofnodion y gofalwr maeth heb unrhyw gost, fel y cytunwyd yn y Fframwaith Pontio (gweler 2.5 uchod).

6.2 Mae adroddiad asesiad gofalwr maeth yn eiddo i'r gwasanaeth cyfredol a wnaeth ei baratoi. Fodd bynnag, mae gan ofalwyr maeth yr hawl i bron yr holl wybodaeth sydd yn yr adroddiad, o dan ddarpariaethau'r ddeddfwriaeth diogelu data.

6.3 Er mwyn sicrhau bod gofalwyr maeth, ac, lle y bo'n berthnasol, aelodau'u haelwyd, yn llwyr ddeall y goblygiadau o rannu gwybodaeth sy'n ymwneud â nhw, dylid gofyn i'r gofalwyr maeth lofnodi a dychwelyd Hysbysiad Preifatrwydd (deddfwriaeth diogelu data).

Dylai'r hysbysiad gadarnhau eu caniatâd i rannu gwybodaeth a gynhelir mewn cofnodion presennol am y gofalwr maeth, er dibenion asesiad newydd. Caiff caniatâd yr ymgeisydd (yn cynnwys aelodau'u haelwyd) a roddir yn yr Hysbysiad Preifatrwydd ei drosglwyddo i'r gwasanaeth sy'n dal y cofnod, ar yr un adeg ag y gwneir y cais i weld cofnodion.

Mae gan ofalwyr maeth yr hawl i gael at yr wybodaeth yn yr adroddiad, o dan ddarpariaethau, ac yn ddarostyngedig i, y cyfyngiadau a gynhwysir o fewn deddfwriaeth diogelu data[2]. Yn benodol, mae hyn fel sy'n ymwneud â thrydydd parti, ceisiadau am fynediad at ddata gan y testun [Erthyglau 12 i 15 & 46] a geirda a ddarparwyd yn gyfrinachol [Atodlen 2, Rhan 4(24) (d) Deddf Diogelu Data 2018]. [Gellir canfod cyfeiriadau at ganiatâd yn Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, Erthygl 7 a Chronicliad 32].

6.4 Os gwrthodir caniatâd, dylai'r gwasanaeth cyfredol ystyried p'un a oes yna unrhyw wybodaeth yn y cofnodion sy'n ymwneud â'r gofalwr[wyr] maeth sy'n peri pryder, a dylai unrhyw wybodaeth o'r fath gael ei rhannu, hyd yn oed os gwrthodwyd caniatâd.

Os nad oes yna bryderon ac os yw'r unigolyn wedi gwrthod â rhoi caniatâd, ni ddylid rhannu gwybodaeth.

6.5 Gall y gwasanaeth recriwtio, gyda chaniatâd, ofyn am fynediad at gofnodion achos perthnasol gwasanaeth maethu blaenorol. Lle bynnag y bo'n ymarferol, dylai'r gwasanaeth cyfredol gynnwys cynnig i'r gwasanaeth recriwtio gael golwg ar ffeiliau'r asiantaeth gyfredol a'r cyfle i gael trafodaethau â'r gweithiwr cymdeithasol goruchwylio cyfredol.

6.6 Er lles diogelu plant a phobl ifanc mewn gofal maeth, bydd y gwasanaeth cyfredol yn paratoi geirda cynhwysfawr, manwl gywir o fewn 15 diwrnod gwaith, fel a gadarnheir yn Rheoliad 10A. Dylai'r wybodaeth i'w rhannu gynnwys:

- Adroddiad yr asesiad gwreiddiol o addasrwydd y person i faethu, copi o adroddiad yr Adolygiad Blynyddol diwethaf o addasrwydd parhaus yr unigolyn i faethu.
- Unrhyw adroddiad adolygiad arall a ystyrir yn ddefnyddiol i ddeall addasrwydd cyfredol yr unigolyn i faethu.
- Manylion unrhyw bryderon am safonau ymarfer ac unrhyw weithgaredd adferol sydd i'w gymryd ac/neu a gwblhawyd i roi sylw iddynt.

[2] https://afkacymru.org.uk/wp-content/uploads/2026/03/AFKA-Cymru-Practice-Note-Information-Sharing-WELSH-8.pdf

- Manylion unrhyw honiadau a wnaed yn erbyn y gofalwr maeth neu aelodau o'u haelwyd.
- Unrhyw wybodaeth arall yr ystyrir ei bod yn berthnasol i'r asesiad o addasrwydd y person i faethu.
- Oni bai bod yna resymau sy'n ymwneud â'r diogelu fyddai'n atal hyn, dylai'r asiantaeth gyfredol hefyd ddarparu copi i'r gofalwr(wyr) maeth.
- Hyd telerau cyfredol cymeradwyaeth y cofrestriad (os o gwbl) ar gyfer y gofalwr maeth a'r dyddiad y cytunwyd ar hyn, ac unrhyw amrywiadau mewn cymeradwyaeth yn y pum mlynedd diwethaf.
- Oed, rhyw a hyd arhosiad yr holl blant a phobl ifanc maeth yn ystod y pum mlynedd diwethaf.
- I ba raddau roedd y gofalwyr maeth yn gallu cyflawni amcanion y lleoliad.
- Cryfderau a sgiliau'r gofalwyr maeth, cyrsiau hyfforddi diweddar a fynychwyd gan y gofalwr(wyr) maeth a sgiliau a enillwyd ar ôl dyddiad y cymeradwyo.
- Canlyniad unrhyw ymchwiliad i honiadau, pryderon neu gwynion am safonau gofal yn ymwneud â'r gofalwr maeth.
- Adolygiad blynyddol diweddaraf y gofalwyr maeth yr ystyrir ei fod yn berthnasol i'r asesiad o addasrwydd y person i faethu.

6.7 Dylai'r gwasanaeth recriwtio gynnal ailasesiad cynhwysfawr, gan adeiladu ar yr holl wybodaeth a ganfuwyd.

6.8 Gall y gwasanaeth maethu sy'n recriwtio gymryd ystyriaeth o wybodaeth a gafwyd gan y gwasanaeth maethu cyfredol, cyn belled â'u bod yn fodlon â'i ansawdd a pharhad ei berthnasedd. Gall hyn, er enghraifft, osgoi'r angen i orfod cyfweld cyflogwr blaenorol neu gyn-gymar eto a gyfwelwyd yn y gorffennol, i wirio ffeithiau a lle nad oes angen rhagor o wybodaeth.

6.9 Y gwasanaeth cyfredol i ddarparu copi o adroddiad asesu neu Adolygiad Blynyddol diweddaraf gofalwr maeth i'r gwasanaeth recriwtio ac i'r gofalwr maeth gael copi o'u hadroddiad asesu, namyn unrhyw wybodaeth gyfrinachol gan drydydd parti.

6.10 Bydd y gwasanaeth cyfredol yn diweddaru'r gwasanaeth recriwtio yn rheolaidd, yn ysgrifenedig, am unrhyw ddatblygiadau sylweddol rhwng anfon y geirda a chymeradwyaeth o'r gofalwr maeth gan y gwasanaeth recriwtio.

6.11 Ni ddylai asesiad gan y gwasanaeth recriwtio ddechrau (neu dylid ei atal am y tro os yw eisoes wedi dechrau) os yw'r gofalwr maeth yn destun ymchwiliad cyfredol i honiadau neu safonau gofal, neu os oes yna ymchwiliad yn ymwneud â phryderon sylweddol ynglŷn â'u hymarfer, tan y bydd canlyniad y broses yn hysbys. Mae'n rhaid i'r canlyniad gynnwys argymhelliad a phenderfyniad y panel a'r penderfynwr, o ran parhad addasrwydd i faethu.

## 7. Fframweithiau cynefino a hyfforddi

7.1 Y gofalwr maeth sydd piau llyfr gwaith a phortffolio tystiolaeth y gofalwr maeth, fydd yn cael eu cadw wrth drosglwyddo gwasanaethau.

7.2 Bydd tystiolaeth o hyfforddiant blaenorol gan y gofalwr maeth yn cael ei derbyn a'i throsglwyddo i'w broffil hyfforddiant a datblygiad gyda'r asiantaeth newydd.

7.3 Bydd y gofalwr maeth yn cwblhau, o fewn 12 mis, pob hyfforddiant cyflwyniadol a chynefino sy'n ofynnol gan yr asiantaeth newydd.

## 8. Ffioedd a thaliadau gwasanaeth ar gyfer trosglwyddiadau rhwng gwasanaethau

8.1 Yn achos trosglwyddo gofalwr maeth o'r naill wasanaeth maethu cofrestredig i'r llall, ni fydd y tâl i'r awdurdod lleol sy'n lleoli am barhau â lleoliadau yn uwch na'r taliadau a godir gan y gwasanaeth cyfredol. Fodd bynnag, bydd y cyfryw daliadau yn ddarostyngedig i adolygiad blynyddol, sy'n gysylltiedig â chwyddiant y cytunwyd arno sydd gan y gwasanaeth recriwtio. Dylai'r gwasanaeth recriwtio ddarparu gwasanaeth ar lefel sy'n gyfwerth â'r gwasanaeth cyfredol.

8.2 Petai'r awdurdod sy'n lleoli yn gofyn am wasanaethau ychwanegol, gellir trafod a chytuno ar daliadau ychwanegol priodol.

## 9. Taliadau i ofalwyr maeth

Lle y cytunir y bydd lleoliad plentyn neu berson ifanc yn parhau â gofalwr maeth, bydd y gwasanaeth recriwtio, fel y peth lleiaf, yn parhau i dalu i'r gofalwr maeth ei gyfraddau cyfredol o lwfansau a ffioedd mewn perthynas â'r lleoliad hwnnw. Dylai'r cyfraddau hyn barhau i fod yn weithredol drwy gydol y lleoliad, yn amodol ar unrhyw godiadau a symud drwy'r bandiau oedran y cytunwyd arnynt yn flynyddol. Mae'n rhaid i'r gwasanaeth cyfredol ddarparu manylion i'r gwasanaeth recriwtio o'r taliadau a wnaed i'r gofalwr maeth mewn perthynas â phlentyn.

## 10. Adnoddau

Gellir canfod Rheoliadau Paneli Maethu a Chynllunio Gofal (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026 yma.

Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019. Gellir canfod canllawiau statudol yma.

Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2018 fel y'u diwygiwyd. Gellir cyrchu'r cod ymarfer yma.

Canllawiau ar Rheoliadau Paneli Maethu a Chynllunio Gofal (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026 - Rhannu Gwybodaeth yma.

Rheoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) 2018.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014. Gellir canfod trosolwg yma.

Rheoleiddio ac Arolygu Deddf Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 - Rhan 6 Cod Ymarfer (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya).

Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015.

Isafswm Lwfansau Cenedlaethol ar gyfer Gofalwyr Maeth 2020 – 2023. Gwybodaeth Llywodraeth Cymru.

Gellir canfod Siarter y Gofalwyr Maeth yma.

Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018 (DPA 18). Gellir cael golwg ar wybodaeth bwysig yma.

Cydymffurfio â'r GDPR a DPA 2018. Paul Adams, Leonie Jordan. Coram Baaf. 2019

**Cymeradwywn fod y canllawiau ymarfer da hyn yn cael eu dilyn gan bawb pan fo gofalwr maeth yn dymuno trosglwyddo o'r naill wasanaeth maethu i'r llall yng Nghymru. Byddwn yn adolygu'r protocol bob 24 mis:**

Fforwm rheolwyr tîm maethu Y Rhwydwaith Maethu

**Cynnwys a nodwyd yn ystod y broses ymgynghori wreiddiol:**
Gofal Cymdeithasol Cymru
Arolygiaeth Gofal Cymru
Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Llywodraeth Cymru
AFA Cymru

Y Rhwydwaith Maethu yng Nghymru
ffôn: 029 2044 0940
e-bost: wales@fostering.net

Canfyddwch ni ar Facebook: facebook.com/thefosteringnetwork
Dilynwch ni ar Twitter: @fosteringnet
Dilynwch ni ar Instagram: @fosteringnet

/thefosteringnetwork @fosteringnet @thefosteringnetwork